OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1095 (Cy.98) (C.63)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Ebrill 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mai 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 99 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## RHAN 1

CYFFREDINOL

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004.

**Cychwyn darpariaethau**

**2.** 1 Mai 2009 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol Deddf 2004—

(a) Adrannau 1 i 12;

(b) Adran 13 (i'r graddau y mae'n ymwneud â chaffael tir yng Nghymru gan Weinidogion Cymru)(**3**);

---

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau o dan adran 245A o Ddeddf Priffyrdd 1980 (1980 p.66) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(c) Adrannau 14 a 15.

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru.

27 Ebrill 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, o ran Cymru, ddarpariaethau Rhan 1 (Swyddogion Traffig) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004").

Mae Rhan 1 o Ddeddf 2004 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, yn eu swyddogaeth fel awdurdod priffyrdd a thraffig ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd strategol yng Nghymru, (h.y. y rhan fwyaf o draffyrdd a phob cefnffordd arall), i sefydlu gwasanaeth swyddogion traffig mewn lifrai ar y ffordd i reoli canlyniadau i draffig ar ôl digwyddiadau ar hap (megis damweiniau, rhwystrau, malurion a cherbydau yn torri i lawr) a rheoli digwyddiadau wedi'u rhaglennu ar briffyrdd megis llwythi annormal yn teithio ar y ffyrdd. Yn ymarferol, mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu swyddogaethau fel awdurdod priffyrdd a thraffig drwy asiantau cefnffyrdd, a fydd yn gweithredu Rhan 1 ar eu rhan.